



1.30pm, Dydd Iau, 19 Ionawr 2023
Microsoft Teams

COFNODION

Yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Y Cyngorydd Darren Price (Y Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Noelwyn Daniel	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mydrian Harries	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cyngorydd Elwyn Williams	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Daron Herbert	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jo McCarthy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Beth Cossins	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Barry Liles	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Uwcharolygydd Clark Jones-John	Heddlu Dyfed-Powys
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru

Yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Helen Morgan	Cyngor Sir Caerfyrddin
Bailie-Olivia Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Phil Kloer	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kelvin Barlow	Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf

Croesawodd y Cyngorydd Darren Price, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir.

2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Adfywio

Rhoddodd Helen Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin y wybodaeth ddiweddaraf am Weithredu'r Cynllun Adfer Economaidd (ERP), y Prosiect 10 Tref Wledig a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF).

- Cymeradwywyd y Cynllun Adfer Economaidd ym mis Gorffennaf 2021 ac roedd yn cynnwys addewidion uchelgeisiol. Nodwyd nad oedd yr economi wedi dirywio cymaint ag a ragwelwyd yn genedlaethol ac yn lleol. Fodd bynnag, bellach roedd dirwasgiad ac argyfwng costau byw. Roedd canlyniadau uchelgeisiol wedi'u cynnwys yn y cynllun i'w cyflawni mewn dwy flynedd ac roedd yr holl dargedau'n agos at gael eu cyflawni 18 mis ar ôl dechrau'r prosiect - roedd 1,500 o swyddi wedi'u creu mewn perthynas â'r targed o 2,000, ymgysylltwyd â 4,100 o fusnesau, ac roedd hyn ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 6,000. Yn ogystal, roedd 565 o'r 750 o bobl wedi cael hyfforddiant hyd yma.
- Roedd y fenter Deg Tref wedi dechrau eto yr haf diwethaf ar ôl seibiant o ddwy flynedd yn ystod COVID. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi targed o £1 miliwn ym mhob un o'r trefi. Roedd gan bob tref Fforwm Twf yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor i ddatblygu rhagor o brosiectau. Roedd cyfle i ariannu rhagor o brosiectau o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF).
- Cymeradwyodd Llywodraeth y DU y cynllun buddsoddi rhanbarthol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin rhanbarth de Cymru ychydig cyn y Nadolig. Abertawe yw'r awdurdod arweiniol a'r banciwr ar gyfer y rhanbarth. Dyrennir £38.68 miliwn i Sir Gaerfyrddin. Mae rhai aelodau'r BGC yn rhan o'r bartneriaeth adfywio a sefydlwyd ym mis Mehefin 2022 sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Y gobaith yw cyflwyno'r Gronfa yn Sir Gaerfyrddin cyn y Pasg. Sefydlir strwythur llywodraethu. Bydd prosiectau a ariennir naill ai'n brosiectau angor - grantiau'r trydydd sector i fusnesau ac i gymunedau (a gyflwynir yn gyntaf), prosiectau annibynnol (ar ôl y Pasg) - a'r ddau'n targedu themâu penodol - neu brosiectau a gomisiynwyd i lenwi bylchau yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin ymhen chwe mis. Bydd y prosiectau'n gorffen ym mis Rhagfyr 2024 a bydd y rhaglen yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Mae gofyniad i ddyrannu £6.6 miliwn i 'Multiply', sef prosiect rhifedd i oedolion. Mae partneriaeth ar waith yn y sir sy'n cynnwys nifer o bartneriaid y BGC. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau lleol am y tro cyntaf gan nad oedd hyn yn bosib gyda chyllid Ewropeaidd.
- Mynegodd y Cyngorydd Darren Price siom nad oedd y cais am gyllid i'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Llanelli wedi bod yn llwyddiannus.
- Cyfeiriodd Daron Herbert at ddefnyddio natur i feithrin gwytnwch a chynhigiodd rannu'r meini prawf a fabwysiadwyd gan CNC ar gyfer Cronfa Cymunedau Gwydn.
- Diolchodd y Cyngorydd Darren Price i Helen am ei chyflwyniad.

Y CAM GWEITHREDU

Rhannu'r meini prawf a ddefnyddir gan CNC mewn perthynas â'r Gronfa Cymunedau Gwydn â Helen Morgan

Daron Herbert /
Huwel Manley

3. Cofnodion a Materion yn Codi

23 Tachwedd 2022

Derbyniwyd y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

4. Gweithdy Mapio'r System o ran Pwysau Iach – 7 Chwefror

Rhoddodd Beth Cossins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, drosolwg o'r strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach' a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn ymdrin â dwy agwedd:

- cymorth i bobl a oedd yn awyddus i gollu pwysau
- dull systemau cyfan o fynd i'r afael â'r penderfynyddion ehangach sy'n achosi gordewdra.
- Nodwyd y ffigurau allweddol a rhoddwyd gwybodaeth:
 - Mae 61% o oedolion yn rhy drwm neu'n ordew, ac roedd y ffigurau gordewdra yn uchel iawn yng Nghymru, sef 24%.
 - Bydd 1.163 miliwn o bobl yn profi gordewdra erbyn 2030.
 - Mae 1 o bob 8 plentyn rhwng 4-5 oed yn ordew.
 - Ceir amrywiadau ledled y wlad ac mae lefelau uwch i'w gweld mewn ardaloedd difreintiedig fel Llanelli.
 - Mae ffigurau Sir Gaerfyrddin yn uwch na chyfartaledd Cymru.
 - Gordewdra yw un o'r heriau iechyd a llesiant mwyaf yn y tymor hir a wynebir, ond gellir atal hyn.
 - Mae angen gweithredu ar draws y system ar benderfynyddion iechyd ehangach megis diweithdra a thai.
 - Mae cyllid ar gael ar draws Hywel Dda ac Abertawe i sefydlu timau iechyd cyhoeddus i ganolbwyntio ar y mater.
- Gwahoddir aelodau'r BGC i fod yn bresennol yn y gweithdy mapio'r system gyfan ar 7 Chwefror. Bydd y gwaith mapio yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod y BGC fis Ebrill er mwyn cytuno ynghylch meysydd blaenoriaeth i fynd i'r afael â nhw.
- Cadarnhawyd bod cydweithwyr o fewn sefydliadau partner y BGC hefyd wedi'u gwahodd i fynd i'r gweithdy.

Y CAM GWEITHREDU

Aelodau'r BGC i fod yn bresennol neu i enwebu cynrychiolwyr i fynd i'r gweithdy mapio'r Systemau Cyfan o ran Pwysau Iach: Cymru Iach ar 7 Chwefror	Pawb
Ystyried canfyddiadau'r gweithdy mapio'r Systemau Cyfan o ran Pwysau Iach: Cymru Iach yng nghyfarfod y BGC ym mis Ebrill a chytuno i weithredu ar y cyd i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth	Pawb
Rhannu sleidiau fel y'u cyflwynir gan Beth Cossins ynghylch Pwysau Iach: Cymru Iach	Tîm Cefnogi'r BGC

5. Adroddiad ar y Digwyddiad Costau Byw

Rhoddodd Noelwyn Daniel y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn yr amlinelliad o'r digwyddiad a roddwyd yn y cyfarfod blaenorol.

- Roedd tua chant o bobl wedi mynd i'r digwyddiad, sef partneriaid a rhanddeiliaid lleol. Cymerodd y rhai a oedd yn bresennol ran mewn grwpiau trafod gan wneud asesiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOP) yn seiliedig ar bedwar grŵp poblogaeth:
 - Mewn gwaith ond yn cael incwm isel; yn chwilio am waith/yn ddi-waith/yn colli gwaith
 - Beichiogrwydd/disgwyl plentyn; teuluoedd; myfyrwyr/pobl ifanc
 - person hŷn/pensiynwr; rhai sy'n galaru; gofalwyr; pobl anabl/sâl/wedi'u hanafu; y lluoedd arfog
 - Arall.
- Cafwyd trafodaethau ynghylch meysydd lle gallai partneriaid gydweithio i atal tlodi, gwella amgylchiadau pobl, helpu pobl i gael gwaith a deall yn well yr heriau sy'n wynebu pobl.

- Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefydlu Panel Ymgynghorol Trawsbleidiol y Cyngor dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Linda Evans, Aelod Cabinet, a grŵp swyddogion dan gadeiryddiaeth Noelwyn Daniel.
- Mae tri hwb yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman, ac mae cynnydd wedi bod ym mhresenoldeb swyddogion y Cyngor i roi cyngor mewn cyfres o ddiwrnodau thema. Mynegwyd diddordeb gan bartneriaid, gyda CAB yn bresennol un diwrnod yr wythnos ac roedd rhai sefydliadau preifat, banciau a Dŵr Cymru hefyd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn bresennol i roi cyngor ar faterion ariannol a thalu biliau.
- Dangosodd ffigurau o ddiwedd Awst tan ddiwedd Rhagfyr fod 1,300 o bobl wedi cael mynediad i'r hybiau. Roedd astudiaethau achos yn cael eu paratoi a bydd y rhain yn cael eu rhannu.
- Mae 50 o fannau cynnes ychwanegol wedi'u sefydlu ledled y sir a ariennir gan y buddsoddiad o £287,000 trwy'r Grant Tlodi. Sefydlwyd manau cynnes mewn llyfrgelloedd yn y tair tref ac roedd y presenoldeb uchaf yn Llanelli.
- Gwahoddwyd partneriaid i ymuno â'r Cyngor i roi cymorth a chynghor yn y siopau un stop hyn a oedd yn ceisio symleiddio'r prosesau a'r cymorth sydd ar gael i gymunedau.
- Dywedodd Huwel Manley efallai y gallai CNC gynorthwyo os oedd adeiladau cymunedol yn agos at yr ystâd goedwigaeth gyhoeddus oherwydd gallai fod modd cael mynediad i'r ystâd i gynhyrchu trydan dŵr. Byddai'r adeiladau hynny wedyn yn cael mynediad at drydan cost isel ond byddai gwariant cyfalaf cychwynnol.
- Ystyriwyd bod cael rhwydwaith o randdeiliaid yn bwysig ac roedd gwasanaethau o fewn y Cyngor a gwaith a wnaed gan sefydliadau eraill yn cael ei fapio i ddeall y gwasanaethau a ddarperir ac i sicrhau nad oedd dyblygu'n digwydd. Roedd disgwyl i adroddiad gael ei gyflwyno'r wythnos nesaf a fyddai'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn gallu ystyried cyfraniad yr holl aelodau. Byddai'r adroddiad yn argymhell bod rhwydwaith ffurfiol yn cael ei ffurfio a fyddai'n sicrhau cyswllt rheolaidd ynghylch gwaith ar draws y sir.
- Cyfeiriodd Jo McCarthy at grŵp llesiant ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer staff a chymunedau a oedd wedi trefnu gweithdy costau byw ar 20 Rhagfyr. Roedd yr adroddiad ynghylch gweithdy Hywel Dda yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol a allai fod yn berthnasol i Sir Gaerfyrddin. Byddai canlyniadau'r gweithdy'n cyfrannu at y gweithdy costau byw 'Adeiladu Cymru Iachach' ym mis Chwefror. Byddai BGCau ledled Cymru yn cael eu gwahodd neu gallai'r Bwrdd Iechyd gynnwys unrhyw bwyntiau gan bartneriaid yn y gweithdy. Bydd gwybodaeth o'r gweithdy'n cael ei chyflwyno i'r BGCau.
- Trafodwyd y mater ynghylch tldi tanwydd. Roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwybodol o'r broblem drwy eu gwaith ymgynghori ynghylch diogelwch yn y cartref ac roeddynt wedi cefnogi pobl agored i niwed, gan gysylltu â darparwyr ynni. Mae'r gwasanaeth yn nodi ymddygiadau sy'n gallu cael effaith o ran diogelwch tân, gan weithio'n aml mewn lleoliadau gwledig lle nad yw pobl yn cael eu gweld gan wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r gwasanaeth yn adolygu'r hyn y gellir ei wneud ynghylch diogelwch yn y cartref ac awgrymwyd y dylai partneriaid ystyried sut y gallai staff rheng flaen gwasanaethau cyhoeddus gyfeirio pobl at yr hybiau a'r gwasanaethau eraill.
- Cyfeiriwyd at y prosiect Byw'n Annibynnol, yn Ddiogel ac yn Dda/MECC (Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif) bum mlynedd yn ôl a chytunwyd y dylid trafod ymhellach ynghylch hyn.
- Cafodd partneriaid wybod bod pamffled pedair tudalen sy'n cynnwys cymorth o ran yr argyfwng costau byw yn cael ei ddatblygu i fynd gyda biliau'r Dreth Gyngor. Gellir cynnwys cyngor penodol gan bartneriaid pe bai'n cael ei ddarparu yn yr wythnos nesaf.
- Cadarnhawyd bod cynghorau tref a chymuned yn mynd i fod yn rhan o'r rhwydwaith cyswllt ac felly byddant yn cael copi o'r adroddiad. Gallai hynny gael ei godi yn y cyfarfod nesaf gyda'r cynghorau lleol.

Y CAM GWEITHREDU	
Rhannu astudiaethau achos yn ymwneud â defnyddio'r tri chanolfan hwb yng nghanol y trefi	Noelwyn Daniel
Gwahodd BGCau i'r gweithdy argyfwng costau byw 'Adeiladu Cymru Iachach' ym mis Chwefror a chyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol	Jo McCarthy
Cael trafodaeth ynghylch bwrw ymlaen â'r prosiect 'Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif' gan ganolbwyntio ar gostau byw	Mydrian Harries / Gwyneth Ayers
Darparu unrhyw wybodaeth neu gyngor penodol er mwyn ystyried eu rhoi yn y pamffled costau byw a fydd yn cael ei ddosbarthu gyda biliau'r Dreth Gyngor, a hynny i Gwyneth Ayers erbyn 26 Ionawr	Pawb
Eitem agenda'r BGC yn y dyfodol i ystyried yr ymateb i gostau byw a sut y gall y BGC gyfrannu at hyn drwy amcanion llesiant newydd	Tîm Cefnogi'r BGC
Ystyried yr adroddiad ar gostau byw yn y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned	Tîm Cefnogi'r BGC

6. Y Bwrdd Atal Rhanbarthol

- Mae cysylltiadau rhwng costau byw a Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a Bwrdd Atal Rhanbarthol newydd y BPR. Mae canolbwynt y BPR a'r BGCau ar atal yn gorgyffwrdd ac mae'r BGC yn targedu gwaith ataliol lefel is ar lefel gymunedol. Roedd y BPR wedi darparu papur briffio ar y Bwrdd Atal Rhanbarthol newydd ac roedd trafodaeth eang wedi digwydd yn y ddau gyfarfod hyd yma. Roedd cyfle i'r BGC elwa ar yr adnoddau a oedd ar gael i'r BPR i reoli ac i gydlynu'r gwaith hwn. Cytunwyd bod y grŵp rhanbarthol yn bwysig, i ddod â'r gwaith at ei gilydd, i gysoni blaenoriaethau, i leihau dyblygu ac i sicrhau'r effaith orau bosibl.
- Mae gwaith y Bwrdd Atal yn cyd-fynd yn dda ag amcan llesiant y BGC i wella llesiant ac i leihau anghydraddoldebau o ran iechyd sy'n ganolog i waith y BGC.
- Cadarnhawyd bod byrddau hefyd wedi'u sefydlu ar lefel sirol. Yn Sir Gaerfyrddin, cafodd hwn ei gadeirio gan Chris Harrison a Rhian Dawson ac roedd y bwrdd wedi cyfarfod ddwywaith. Mae'n bwysig sicrhau bod lechyd y Cyhoedd yn cael ei wahodd i'r bwrdd sirol.
- Cytunwyd ar yr argymhellion yn nogfen briffio'r BPR.

Y CAM GWEITHREDU	
Sicrhau bod lechyd y Cyhoedd yn rhan o'r Bwrdd Atal lleol yn Sir Gaerfyrddin	Gwyneth Ayers
Cadarnhau i'r BPR y gellir cymeradwyo'r argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Bwrdd Atal Rhanbarthol	Tîm Cefnogi'r BGC

7. Y Diweddaraf am y Cynllun Llesiant

- Agorodd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Llesiant drafft ar 2 Tachwedd ac mae'n dod i ben ar 25 Ionawr. Gwerthfawrogir pe bai partneriaid yn gallu parhau i hyrwyddo'r cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Roedd hi'n gadarnhaol bod 90 ymateb wedi dod i law hyd yn hyn ac roedd adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn.
- Digwyddodd amrywiaeth o waith ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio rhwydweithiau Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS), Hawliau Gofalwyr, ac yn y blaen.
- Yn dilyn adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, trafododd y BGC yr angen am gamau gweithredu tymor byr/canolog/tymor hir CAMPUS.

- Mae Fforwm Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin wedi ysgrifennu at y BGC yn gofyn iddynt ystyried ymhellach ffocws penodol ar y Gymraeg o ystyried bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau ymhellach, fel y nodwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021. Cynigiwyd bod hyn yn cael ei drafod ymhellach yng ngweithdy'r BGC ar 2 Chwefror.

Y CAM GWEITHREDU

Ystyried y llythyr oddi wrth Fforwm Strategol y Gymraeg y sir yn y gweithdy ar 2 Chwefror	Pawb
---	------

8. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion.

7. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

- 28 Chwefror 2023, (2pm)
- 25 Ebrill 2023 (2pm)

Cytunwyd y byddai'r ddau gyfarfod hyn yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb oherwydd yr eitemau ar yr agenda a oedd i'w trafod.